## Gweithgaredd Dysgu

Mae'r adnodd hwn yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer eich myfyrwyr drwy ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n bosibl ei ddefnyddio hefyd yn dempled i greu eich gweithgareddau eich hun drwy ddefnyddio gwefan Casgliad y Werin Cymru.

**Cam Cynnydd** 3

**Pwnc** Defnyddio Archifau i Ymchwilio i Hanes Lleol

**Teitl** Ar Garreg Eich Drws – Cyfeiriaduron Masnach
*Defnyddio archifau i ymchwilio i hanes lleol*

**Awdur** Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a'r archifdai lleol canlynol: Archifau Gwent, Archifau Sir Benfro, Archifau Ynys Môn, Gwasanaeth Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam.

## Defnyddio archifau i ymchwilio i hanes lleol – Cyfeiriaduron Masnach

Mae'r adnodd hwn yn edrych ar sut y gallwch ymchwilio i hanes eich ardal drwy ddefnyddio cyfeiriaduron masnach fel math o ffynhonnell sydd ar gael mewn swyddfeydd cofnodion ac archifdai lleol a chenedlaethol yng Nghymru. Mae'n rhan o gyfres sy'n ffurfio'r blociau adeiladu sylfaenol er mwyn cael gwybod am hanes lleol.

Bwriedir i'r adnodd fod yn ganllaw i athrawon, i'w helpu i ddefnyddio prif ffynonellau yn yr ystafell ddosbarth. Gall yr adnodd helpu athrawon hefyd i weithio gyda'u harchifdy lleol i ddod o hyd i ffynonellau tebyg ar gyfer eu hardal eu hunain. Ei nod yw cyflwyno athrawon a myfyrwyr i'r mathau o ffynonellau archifol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer hanes lleol ac i ymgyfarwyddo â ffurf, golwg a chynnwys y ffynonellau.

# Ar Garreg Eich Drws – Cyfeiriaduron Masnach – Amcanion Dysgu

**Bydd y dysgwyr yn deall:**

- Rôl yr archifdai o ran darparu ffynonellau hanesyddol pwysig.
- Rôl defnyddio cyfeiriaduron masnach yn fath o ffynhonnell hanesyddol.
- Pa fath o fywyd oedd gan bobl ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn eu hardal leol o gymharu â bywyd mewn rhannau eraill o Gymru.

**Bydd y dysgwyr yn gallu:**

**Pwnc yn y Cwricwlwm – Hanes**
- Defnyddio ystod o ffynonellau, gan gynnwys TGCh, i chwilio am wybodaeth.
- Defnyddio llinellau amser i roi digwyddiadau yn eu trefn.
- Gofyn ac ateb cwestiynau perthnasol am y gorffennol.
- Adnabod gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau.
- Nodi'r gwahanol ffyrdd o gynrychioli a dehongli'r gorffennol.
- Dewis, cofnodi a threfnu gwybodaeth hanesyddol.
- Cyfleu syniadau, safbwyntiau a chasgliadau yn fwyfwy annibynnol mewn amrywiaeth o ffyrdd.

**Fframwaith Llythrennedd**
- Cyfrannu at drafodaethau a chyflwyniadau.
- Defnyddio ystod o strategaethau darllen priodol i wneud synnwyr o destunau.
- Datblygu dealltwriaeth o wybodaeth anghyfarwydd.
- Creu cysylltiadau o fewn/ar draws ystod o destunau/themâu.
- Ymchwilio er mwyn datblygu dealltwriaeth lawn.
- Defnyddio strwythur sy'n briodol ar gyfer diben a ffocws yr ysgrifennu.
- Defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer yr ysgrifennu.

**Pwnc yn y Cwricwlwm – Daearyddiaeth**
- Adnabod beth sy'n debyg ac yn wahanol er mwyn disgrifio, cymharu a chyferbynnu lleoedd.
- Arsylwi a gofyn cwestiynau am le.

# Ar Garreg Eich Drws – Cyfeiriaduron Masnach – Sgiliau

**Meddwl**
- Gofyn cwestiynau.
- Ysgogi gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth flaenorol.
- Penderfynu ar y broses/dull a'r strategaeth.
- Creu a datblygu syniadau.
- Pwyso a mesur tystiolaeth, gwybodaeth a syniadau.
- Adolygu'r broses/dull

**Cyfathrebu**
- Datblygu a chyfleu gwybodaeth a syniadau.
- Trefnu syniadau a gwybodaeth.
- Ysgrifennu'n gywir.
- Cyfleu gwybodaeth.

**TGCh**
- Canfod a datblygu gwybodaeth a syniadau.
- Creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.

# Ar Garreg Eich Drws – Testun Rhagarweiniol

## Cyflwyniad

Mae'r adnodd hwn yn rhan o gyfres o wyth. Mae pob adnodd yn y gyfres yn cyflwyno gwahanol fath o ffynhonnell hanesyddol. Mae'r mathau o ffynonellau hanesyddol sy'n cael eu cyflwyno yn yr adnodd hwn yn nodweddiadol o'r hyn y gallech edrych arnyn nhw mewn project hanes lleol ac maen nhw i gyd ar gael yn eich archifdy lleol.
Dyma'r gwahanol fathau o ffynonellau sy'n cael eu cyflwyno:

Y Cyfrifiad
Mapiau'r Degwm a Mapiau Arolwg Ordnans
Llyfrau Log Ysgolion
Ffotograffau
Cofrestrau Plwyf - bedyddiadau a marwolaethau
**Cyfeiriaduron Masnach**
Catalogau Gwerthu
Papurau newydd

Mae'r ffynonellau hanesyddol enghreifftiol ym mhob adnodd yn dod o bedair ardal yng Nghymru: Caergybi, Blaenafon, Saundersfoot a Wrecsam. Maen nhw'n deillio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Gan ddefnyddio'r rhain yn enghreifftiau, mae'n bosibl archwilio, creu cysylltiadau a chymariaethau, gofyn ac ateb cwestiynau, darganfod tirweddau a phobl, a'r cysylltiadau sydd rhyngddyn nhw.

Ceir ffilm fer sy'n cyflwyno archifau ac ar gyfer pob math o ffynhonnell, ac yna ceir ffilm fer ychwanegol sy'n esbonio'r math o ffynhonnell a sut y gallwn ei defnyddio i gael gwybod rhagor am hanes lleol. Mae trawsgrifiad o'r ffilmiau a'r mân-luniau yn y **nodiadau i athrawon.** Mae'r delweddau maint llawn ar gael drwy ddilyn y dolenni i wefan Casgliad y Werin Cymru.

Ar gyfer pob adnodd yn y gyfres mae sawl **tasg ar-lein** ar gyfer y disgyblion sy'n defnyddio'r ffynonellau o'r pedair ardal. Mae'n bosibl gweld y ffynonellau hyn ar-lein ar wefan Casgliad y Werin Cymru drwy ddilyn y dolenni sydd ar daflenni tasgau'r disgyblion. Mae **gweithgareddau ychwanegol** hefyd sy'n awgrymu sut y gallai'r disgyblion ddefnyddio ffynonellau eu harchifdy lleol i ymchwilio i'r hanes lleol sydd ar garreg eu drws. Mae'r gweithgareddau ychwanegol hyn yn galluogi disgyblion i gymharu a gwrthgyferbynnu eu hardal hwy ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Mae manylion archifdai lleol a chenedlaethol Cymru ar ddiwedd y nodiadau i athrawon.

Gwylio'r ffilm – yr Archif a'r Archifdy

# Ar Garreg Eich Drws – Ffilm Ragarweiniol – Cyfeiriaduron Masnach

Rhagarweiniad byr ar ffilm sydd yma. Mae archifydd yn esbonio cyfeiriaduron masnachol fel math o ffynhonnell a sut y gallwn eu defnyddio i gael gwybod rhagor am hanes lleol.

Gwyliwch y ffilm ragarweiniol yma – Defnyddio Cyfeiriaduron Masnach

# Edrych ar Archifau – *Cyfeiriaduron Masnach*

## Defnyddio cyfeiriaduron masnach

Mae cyfeiriaduron masnach yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ymchwilio i hanes lleol. Mae cyfeiriaduron yn gallu bod yn ffenestr i'r gorffennol. Maen nhw'n eich help i greu darlun o fywyd yn eich tref, neu hyd yn oed yn eich tŷ, yn ystod blwyddyn benodol. Efallai y byddwch yn dod o hyd i strydoedd a chrefftau nad ydyn nhw'n bodoli rhagor, neu'n dod o hyd i wybodaeth am bobl a oedd yn byw yno yn y gorffennol. Dechreuwyd argraffu cyfeiriaduron gyntaf ar ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg oherwydd bod pobl am gael gwybodaeth fwy cywir am fyd masnach, diwydiant a busnes. Fel rheol, roedd y cyfeiriaduron yn cynnwys:

- Disgrifiadau o ddinasoedd, plwyfi, trefi a phentrefi. Gall y rhain gynnwys manylion daearyddol, hanesyddol ac ystadegol.
- Gwybodaeth am gyfleusterau, sefydliadau a chymdeithasau lleol.
- Rhestrau ar gyfer trigolion preifat, masnachwyr, crefftau a phroffesiynau.
- Manylion am bobl bwysig.
- Hysbysebion.

Mae pum enghraifft o gyfeiriaduron masnach i'w defnyddio gyda'r ymchwiliadau ar-lein gan y disgyblion:

*Bennett's Business Directory for North Wales* 1910 (Caergybi)
*Kelly's Directory* 1891 (Blaenafon)
*Kelly's Directory* 1914 (Saundersfoot a St Issell)
*Red Book Directory* Wrecsam 1892-1893
*"Wrexham Leader" Commercial Directory* 1934

Yn ystod y tasgau, defnyddiwch y dolenni i'r casgliadau sydd ar wefan Casgliad y Werin Cymru i edrych ar yr holl gyfeiriaduron masnach. Drwy gymharu'r cyfeiriaduron masnach, mae'n bosibl cael gwybodaeth ddefnyddiol am y pethau a oedd yn debyg a'r pethau a oedd yn wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Defnyddiwch y dolenni i wefan Casgliad y Werin Cymru i weld y cyfeiriaduron masnach ar-lein.

# Ar Garreg Eich Drws – Cyfeiriaduron Masnach / Tasg 1

**Beth y gallwn ei ddysgu o'r cyfeiriaduron masnach am gre1au, siopau a swyddi ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif?**

Astudiwch y cyfeiriaduron masnach o'r casgliad isod i'ch helpu i ateb y cwestiwn hwn.

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch ymchwil.**

Edrychwch ar y rhestr o swyddi ar dudalen 59 o Gyfarwyddiadur Wrecsam 1892-3 rhwng Arwerthwyr (*Auctioneers*) a Rhwymwyr Llyfrau (*Bookbinders*). Pa rai o'r swyddi hyn sy'n dal i fodoli heddiw? Pa rai sydd wedi diflannu?
Edrychwch ar y swyddi yn Saundersfoot yn 1914. Rhestrwch yr holl swyddi sy'n gysylltiedig â'r môr. Gwnewch yr un peth ar gyfer Caergybi. Ydyn nhw'n debyg yn y ddwy ardal?
Edrychwch ar y mathau o swyddi y byddai menywod yn eu gwneud, fel maen nhw wedi'u dangos yn y cyfeiriaduron masnach. Edrychwch i weld a yw hyn yr un fath ym mhob un o'r ardaloedd sydd yn nhudalennau'r cyfeiriaduron yn y casgliad.

## Casgliad ar gyfer Tasg 1

Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

# Ar Garreg Eich Drws – Cyfeiriaduron Masnach / Tasg 2

**Beth yw'r cysylltiad rhwng cyfeiriaduron masnach a phrif ffynonellau eraill, er enghraifft mapiau a ffurflenni'r cyfrifiad a chofnodion plwyf?**

Astudiwch y prif ffynonellau o'r casgliad isod - edrychwch i weld a allwch gysylltu'r ffynonellau â'i gilydd.

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch ymchwil.**

Edrychwch ar yr enghraifft o gyfrifiad 1891 ar gyfer Wrecsam i weld pwy oedd yn byw yn 4 Charles Street. Beth yw gwaith y penteulu? Edrychwch ar y rhestr o bobl sy'n gwneud y swydd honno yng nghyfeiriadur masnach Wrecsam 1892-3. A oes rhywun sy'n gwneud y gwaith hwnnw'n byw ac yn gweithio o 5 Charles Street? Ai'r un person yw hwn? Pa esboniad y gallwch ei awgrymu ar gyfer hyn?

Edrychwch ar y darn o'r gofrestr claddu ar gyfer Saundersfoot yn 1896. Chwiliwch am Charles Ranken Vickerman. Nawr, edrychwch i weld a allwch ddod o hyd i rywun â'r un enw yng nghyfeiriadur 1914. Ai'r un person yw hwn? Os nad yr un person yw hwn, allwch chi esbonio'r enw?

## Casgliad ar gyfer Tasg 2

Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

# Ar Garreg Eich Drws – Cyfeiriaduron Masnach / Tasg 3

## A yw cyfeiriaduron masnach yn gallu ein helpu i ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ffotograffau?

Astudiwch y cyfeiriaduron masnach a'r ffotograffau o'r casgliad isod.

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch ymchwil.**

Edrychwch ar y ffotograff o Saundersfoot. Allwch chi weld beth yw'r arwyddion uwchben y siop ar gornel chwith y stryd ac un ymhellach i lawr y stryd ar yr ochr chwith. Mae'r ddwy siop hyn wedi'u rhestru yng nghyfeiriadur 1914. Beth maen nhw'n ei werthu?

Edrychwch ar y ffotograff o Broad Street, Blaenafon. Gallwch weld yr arwydd siop COOKE ar ochr chwith y ffotograff. Chwiliwch am yr enw COOKE yng nghyfeiriadur Blaenafon. Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am y siop hon?

## Casgliad ar gyfer Tasg 3

Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

***Da iawn chi, rydych wedi gorffen eich tasgau ac wedi casglu llawer o wybodaeth drwy ddefnyddio cyfeiriaduron masnach.***

## Dyma'ch cyfle i gael gwybod rhagor.

Gallwch ymweld â'ch archifdy neu'ch swyddfa cofnodion leol i weld enghreifftiau o bapurau newydd ar gyfer eich ardal chi. Edrychwch drwy'ch ardal leol, eich pentref, eich stryd fawr ac ati. Ceisiwch weld a allwch adnabod unrhyw fusnesau sydd wedi'u rhestr yn y cyfeiriaduron sy'n dal yno heddiw. Ydy'r rhain ar y ffurflenni cyfrifiad ac ar y mapiau hefyd? Allwch chi ddod o hyd i unrhyw ffotograffau ohonyn nhw?

## Pa gwestiynau newydd fyddech chi'n hoffi cael atebion iddyn nhw?

**Gallwch wneud rhagor o ymchwil ar lein, yn eich archifdy, eich swyddfa cofnodion a'ch amgueddfa leol.**

**Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy neu'ch swyddfa cofnodion leol yn** www.archiveswales.org.uk/

**Gallwch ddod o hyd i'ch amgueddfa leol yn** http://www.culture24.org.uk/places+to+go/wales **(Saesneg yn unig)**

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn** www.llgc.org.uk/cy/

**Casgliad y Werin Cymru yn** www.casgliadywerincymru.co.uk

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn** www.cbhc.gov.uk

**Coflein yn** www.coflein.gov.uk

# Gweithgareddau Ychwanegol – Cre1au a Swyddi

## Gan ddefnyddio cyfeiriaduron masnach o'ch archifau lleol, cymharwch sut mae crefftau a swyddi yn eich ardal leol yn wahanol i grefftau a swyddi mewn rhannau eraill o Gymru yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.

### GWEITHGAREDDAU DYSGU

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar gyfeiriaduron masnach o'ch ardal leol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Beth yw'r prif grefftau a swyddi? Sut mae hyn yn wahanol i'r ardaloedd eraill?

### *Edrych ar grefftau a swyddi ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif – hysbysebu busnesau*

Ar ôl astudio'r cyfeiriaduron masnach o'r archifau lleol a rhai ardaloedd eraill, dyluniwch hysbysebion ar gyfer rhai o'r busnesau yn y cyfeiriaduron. Chwiliwch ar-lein am hysbysebion o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif er mwyn cael ysbrydoliaeth.

**Dyma rai o'r pethau y gallech eu trafod:**

- **Pa farchnad maen nhw'n ei thargedu wrth hysbysebu – i bwy mae'r busnes yn gwerthu?**
- **Yr ystod o gynhyrchion.**
- **Ymhle mae'r busnes.**

### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

**Beth am Fynd i Siopa?**

- Beth y gallech ei brynu yn y cyfnod rhwng 1890 ac 1914? Defnyddiwch y cyfeiriaduron yng Nghasgliad 1 i fynd i siopa ac ar ôl i chi ddod o hyd i rywle lle y gallwch brynu'r pethau canlynol, nodwch hynny:

  Golwythion porc a chig moch, pysgod ffres, torth o fara ffres, tatws a llysiau ffres, losin a hufen ia, moddion a thabledi, papur ysgrifennu ac amlenni, crys newydd, glo i'r tân, llestr gwydr, pecyn o de, siwgr, edau a nodwyddau, llaeth, het neu gap.
  Ydy'r rhain ar gael ym mhob un o'r ardaloedd?

- Pwy fyddai'n gwneud hyn i chi? Gan ddefnyddio'r cyfeiriaduron yng Nghasgliad 1 ceisiwch gael gwybod ymhle y gallwch ddod o hyd i rywun i wneud y tasgau hyn ym mhob ardal:

  Cael ail-bedoli eich ceffyl, cael trwsio'ch rhaw, cael mainc bren newydd, prynu baril neu fwced pren, cael trwsio wats boced eich tad, cael gwadnau newydd ar eich esgidiau, postio llythyr, cael torri'ch gwallt, cael gwneud pâr newydd o drowsus, cael cludo nwyddau i Gaerdydd, cael olwyn newydd i'ch cert, cael rhywun i edrych ar eich dolur gwddw, archebu cyfrwy newydd i'ch ceffyl, prynu hoelion i drwsio'ch to.







# Gweithgareddau Ychwanegol – Defnyddio prif ffynonellau eraill

**Gan ddefnyddio cyfeiriaduron masnach o'ch archifau lleol, cymharwch sut mae crefftau a swyddi yn eich ardal leol yn wahanol i'r rhai mewn rhannau eraill o Gymru yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.**

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar y cyfeiriaduron masnach, ffurflenni’r cyfrifiad a'r cofrestrau plwyf o'ch ardal leol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Allwch chi weld unrhyw gysylltiadau rhwng swyddi pobl yn y cyfarwyddiaduron masnachol a'r rheini sydd wedi'u rhestru ar y ffurflenni cyfrifiad? Allwch chi weld unrhyw rai o'r un bobl yn y cofnodion plwyf?

## *Edrych ar y cyfeiriaduron masnach a phrif ffynonellau eraill ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif – ditectif hanes*

Ar ôl astudio'r cyfeiriaduron masnach a phrif ffynonellau eraill o'r archifau lleol, bydd pob disgybl neu grŵp o ddisgyblion yn cyflwyno cyfres o astudiaethau achos lle ceir cysylltiadau clir rhwng y cyfeiriaduron masnach, ffurflenni'r cyfrifiad neu gofrestrau'r plwyf ac unrhyw ffotograffau neu fapiau.


**Dyma rai o'r pynciau y gallech eu trafod:**

- **Enwau a swyddi'r bobl**
- **Y prif ffynonellau lle maen nhw ar gael.**
- **A oes unrhyw fylchau neu doriad yn y cysylltiad?**

### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

Gan ddefnyddio'r ffynonellau yng Nghasgliad 4 edrychwch ar dudalen cyfrifiad 1891 ar gyfer Prince Street, Blaenafon. Chwiliwch am Gwen Price sy'n 74 ac yn cadw gwesty – y Victoria Hotel. Allwch chi ddod o hyd i Gwen yng nghyfeiriadur Blaenafon yn yr un flwyddyn? Dim ond un unigolyn arall yn y darn sydd wedi'i dynnu o'r cyfrifiad sy'n byw yn Prince St sydd wedi'i restru yn y cyfeiriadur, sef y clochydd, John Griffiths. Mae ei enw i'w weld o dan y disgrifiad o'r dref, ar ôl nifer y boblogaeth. Beth yw gwaith clochydd? Pam nad yw’r bobl eraill sy'n byw yn Prince Street wedi'u rhestru yn y cyfeiriadur tybed?







# Gweithgareddau Ychwanegol – Newidiadau mewn Busnesau Lleol

**Gan ddefnyddio cyfeiriaduron masnach a ffotograffau o'ch archifau lleol, cymharwch sut mae busnesau yn eich ardal leol wedi newid ers diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.**

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar gyfeiriaduron masnach a ffotograffau o'ch ardal leol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. A oes unrhyw rai o'r busnesau'n dal yno heddiw? Sut mae'r crefftau a'r swyddi wedi newid dros gyfnod yn eich ardal chi? Allwch chi ddod o hyd i ffotograffau sy'n adlewyrchu'r newid?

### *Edrych ar grefftau a swyddi ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif – llinell amser busnesau lleol*

Gan ddefnyddio cyfeiriaduron masnach a ffotograffau o'r archifau lleol, crëwch linell amser ar gyfer busnesau lleol, gan gynnwys mapiau, ffotograffau a chofnodion mewn cyfeiriaduron masnach.

**Dyma rai o'r pethau y gallech eu trafod:**

- **Cynllun neu fap cyfoes o'r stryd gyda ffotograffau cyfoes o'r busnesau a'r adeiladau sydd yno.**
- **Ffotograffau o wahanol gyfnodau sy'n dangos sut mae byd masnach wedi newid.**
- **Cofnodion mewn cyfeiriaduron masnach ar gyfer y busnes dros gyfnod.**
- **A oes unrhyw rai o'r busnesau'n dal i fasnachu o dan yr un enw? A ydyn nhw wedi newid perchnogion neu a ydyn nhw'n dal yn eiddo i'r un teulu?**

### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

- Gan ddefnyddio Casgliad 5 edrychwch ar ffotograff Wrecsam o Waith Peirianneg y Brodyr Powell 1914-1918. Mae'r cyfeiriadur cynharach yn dweud wrthym fod Powells yn Wrecsam yn 1892-3 – allwch chi ddarganfod ymhle yn union? Gallwch ddod o hyd i hysbyseb hefyd sy'n dangos beth roedd y Brodyr Powell yn ei wneud yn 1892-3. Pa fath o bobl fyddai wedi prynu'r peiriannau yr oedd y Brodyr Powell yn eu gwneud? Beth oedden nhw'n ei wneud pan gafodd y ffotograff ei dynnu yn 1914?
- Nawr edrychwch ar ffotograff siop y gwneuthurwr watsys yng Nghaergybi yng Nghasgliad 5. Allwch chi weld y siop hon yng nghyfeiriadur 1910? Ble mae hi?
- Edrychwch ar y ffotograffau o Saundersfoot yng Nghasgliad 5. Mae un o'r rhain yn dangos y Cambrian Hotel ar y chwith a'r Hean Castle Hotel yn ei wynebu ar y dde. Yn y rhagarweiniad ar dudalen 867 o gyfeiriadur masnach Saundersfoot, mae'r ddau le hyn yn cael eu crybwyll fel mannau i bobl aros. Pwy oedd yn gyfrifol am y gwestai hyn yn 1914?








**Mae cyfeiriaduron masnach yn cynnwys gwybodaeth am bobl a oedd yn byw ac yn gweithio mewn ardal benodol ac am ba fath o gymuned oedd yno. Maen nhw'n gallu ein helpu i greu darlun o fywyd ar y pryd ac maen nhw'n rhoi gwybodaeth i ni am adeiladau, pobl a phroffesiynau.**


**Dyma drawsgrifiad o'r ffilm sy'n esbonio sut mae defnyddio cyfeiriaduron masnach gan ddefnyddio un ardal yn enghraifft.**

Dyma ddwy dudalen o gyfeiriadur masnach Wrecsam ar gyfer 1829-1892 a thudalen o gyfeiriadur Wrecsam ar gyfer 1934.




Dolen i'r ddelwedd

*"Wrexham Leader" Commercial Directory* 1934 – Wrecsam



*Red Book Directory* Wrecsam 1892-1893

Dolen i'r ddelwedd



*Red Book Directory* Wrecsam 1892-1893

Dolen i'r ddelwedd

**Beth yw cyfeiriadur masnach?**

Heddiw, mae gennym lyfr ffôn melyn, llyfrau ffôn cyffredin a'r rhyngrwyd sy'n gallu dweud wrthym ymhle mae pobl yn byw a phwy i'w ffonio os bydd angen rhywun arnom i wneud gwaith neu os byddwn ni eisiau prynu rhywbeth. Cyn dyddiau'r rhyngrwyd, byddai pobl yn dibynnu ar gyfeiriaduron masnach i gael y math hwn o wybodaeth. Maen nhw'n cael eu galw'n gyfeiriaduron masnach oherwydd dyma sut y byddai busnesau lleol yn hysbysebu eu nwyddau a'u gwasanaethau. Byddai pobl broffesiynol hefyd yn talu am gael eu cynnwys yn y cyfeiriadur er mwyn hysbysebu eu safle yn y gymdeithas leol. Roedd y cyfeiriaduron yn cael eu hargraffu gan gyhoeddwyr lleol a chenedlaethol. Mae cyfeiriaduron masnach yn cael eu cadw mewn llyfrgelloedd lleol ac archifdai'r siroedd mewn casgliadau o gyfeiriaduron sy'n berthnasol i'w hardal leol. Ar gyfer Wrecsam, mae cyfeiriaduron masnach ar gael ar gyfer 1815-1970au er nad oes un ar gyfer bob blwyddyn.

**Pa wybodaeth sydd ar gael mewn cyfeiriaduron masnach?**


Fel rheol, bydd cyfeiriaduron masnach yn cynnwys disgrifiad o'r dref neu'r ardal leol ac efallai y byddant hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y pentrefi cyfagos. Mae enwau a manylion gweision cyhoeddus lleol, er enghraifft, y maer, athrawon a barnwyr hefyd yn cael eu cynnwys yn ogystal â rhestr o'r prif drigolion a rhestrau o bobl broffesiynol a chrefftwyr a'u cyfeiriadau. Mae cyfeiriaduron trefi mawr hefyd yn cynnwys rhestrau o'r tai sydd ym mhob stryd sy'n rhoi enw'r sawl sy'n byw ym mhob cyfeiriad.

Oherwydd eu bod yn cynnwys rhestrau o weithwyr proffesiynol a chrefftwyr, maen nhw'n ddefnyddiol iawn os byddwch chi'n chwilio am bobl unigol. Maen nhw'n gallu dweud wrthych beth oedd eu swydd a ble roedden nhw'n byw. Maen nhw hefyd yn gallu dweud wrthych am y gymuned leol ac yn rhoi cliwiau i chi am ba fath o fywyd oedd yno. Mae rhai cyfeiriaduron hyd yn oed yn cynnwys amserau'r bysys lleol a pha bryd yr oedd y post yn cyrraedd. Roedd hyn yn bwysig. Cyn dyddiau'r ffôn a'r rhyngrwyd, byddai pobl yn cyfathrebu drwy ysgrifennu llythyrau a'u postio er mwyn i'r gwasanaeth post eu cludo.

Mae'r *Red Book Directory Wrexham* 1892-1893 yn cynnwys gwybodaeth am y trefi yn ardal Wrecsam, er enghraifft y boblogaeth, pa ysgolion oedd yno, yr eglwysi, pwy oedd y bobl bwysig a oedd yn rhedeg y dref a hysbysebion ar gyfer busnesau lleol. Mae hefyd yn rhestru'r trigolion a'r crefftwyr, wedi'u trefnu yn ôl enwau'r strydoedd ac enw'r grefft. Gallwch ddarganfod pwy oedd yn byw mewn stryd benodol a beth oedd eu gwaith a gallwch weld faint o bobl oedd wedi'u rhestru o dan bob swydd a'u henwau unigol. Felly, os oeddech am gael gwybod pwy oedd yn bobydd yn Wrecsam yn 1892, gallwch edrych o dan restr enwau'r pobyddion. Gallwch weld beth oedd y prif swyddi yn Wrecsam a pha nwyddau oedd yn cael eu cynhyrchu a'u gwerthu drwy edrych ar faint o enwau sydd wedi'u rhestru o dan bob proffesiwn neu grefft. Yr hiraf yw'r rhestr o enwau, y mwyaf poblogaidd oedd y grefft.

Ar dudalennau cyfeiriadur 1892-1893, mae tudalen o hysbysebion hefyd sy'n dweud wrthym am yr ystod o fusnesau a oedd yn Wrecsam ar y pryd. Maen nhw'n rhoi gwybodaeth am y pethau a oedd yn cael eu gwneud, a'r nwyddau a'r gwasanaethau a oedd yn cael eu gwerthu a'u darparu. Roedd amrywiaeth eang o nwyddau'n cael eu gwneud yn Wrecsam.

Ar y dudalen hon, mae hysbyseb i gwmni o'r enw Powell Brothers & Whittaker. Ar y dechrau, roedd yn gwneud haearn ac, yn ddiweddarach, ymunodd John Whittaker â nhw. Roedd e'n gwneud offer ffermio ac amaethyddol. Adeg y cyfeiriadur ym 1892, roedd yy cwmni'n gwneud offer a pheiriannau fferm a fyddai'n cael eu tynnu gan geffylau. Mae'r hysbyseb yn dangos y peiriannau sydd ar werth. Mae'r rhain yn debyg i'r peiriannau sy'n cael eu disgrifio yng nghatalog gwerthu Fferm Brychdyn ger Wrecsam.


ADVERTISEMENTS.

ISHMAEL EVANS & SON,
ESTATE AND MORTGAGE AGENTS,
Public Hall, Wrexham.

PROPERTY QUICKLY SOLD. MORTGAGES PROMPTLY ARRANGED AT FROM FOUR PER CENT.
RENTS AND ACCOUNTS CAREFULLY COLLECTED.
CHARGES FIXED BEFOREHAND. NO CHARGE UNLESS BUSINESS RESULTS.

JOHN BEIRNE,
ALBION BREWERY,
WREXHAM.

Mrs. E. Dodd,
No. 1 TEMPLE ROW, WREXHAM.
Scientific Dress, Habit, and Mantle Maker.
POSTAL ORDERS RECEIVE PROMPT AND CAREFUL ATTENTION.

PALMER'S
Noted Athletic Boot and Shoe Maker,
LARGEST AND BEST VARIETY IN NORTH WALES.
Running Pumps, Cricket Shoes, Tennis Shoes, Cycling Shoes, Boating Shoes, Football Boots, always kept in Stock.
ADDRESS-
24 HOPE ST., and 2 TOWN HILL, WREXHAM.
AGENT FOR THE "K" BOOTS. LIVERY BOOTS MADE TO ORDER.

ADVERTISEMENTS.

POWELL BROTHERS & WHITAKER
WREXHAM.

MANUFACTURERS OF

ROYAL SOCIETY OF ENGLAND'S FIRST PRIZE POTATO DIGGER.
NINE GOLD AND SILVER MEDALS AWARDED FOR POTATO DIGGERS.

FIRST PRIZE CAMBRIAN AND PRINCE of WALES 1 and 2-HORSE MOWERS.
AWARDED FIRST PRIZE AT THE LATEST MOWING MACHINE TRIALS, 1891.

Also Makers of FIRST PRIZE CHAFF CUTTERS, ROOT CUTTERS, PULPERS, SLICERS, HORSE-POWER WORKS, OILCAKE MILLS.

The above may be had from all respectable Agents, or from our Depots,
Smithfield Road, SHREWSBURY,
AND
Smithfield Warehouse, WREXHAM.

Dolen i'r ddelwedd

Yn ogystal, gall cyfeiriaduron masnach ddangos sut mae ardal wedi newid wrth i amser fynd heibio a sut mae lle wedi datblygu a busnesau/preswylwyr ardal benodol wedi newid. Mae'r dudalen o gyfeiriadur 1892 sy'n dangos enwau strydoedd yn rhestru'r preswylwyr sy'n byw mewn stryd o'r enw Grove Park, Wrecsam. Ar y pryd, roedd dyn o'r enw Mr Davies yn byw yn y tŷ a elwir yn "Roseneath". Roedd y tŷ drws nesaf i ysgol. Yn y stryd hon, tai lle'r oedd pobl yn byw oedd yno'n bennaf, ond mewn strydoedd eraill yn y dref, er enghraifft Henblas Street, sydd hefyd i'w gweld ar y dudalen hon, roedd llawer o fusnesau, gan gynnwys gwneuthurwyr fframiau lluniau, cyfrifwyr ac yswirwyr, popty ac ystafelloedd bwyta, groseriaid a llawer o fusnesau eraill. Gallwn gymharu'r cofnodion ar gyfer yr un strydoedd mewn cyfeiriadur arall er mwyn gweld pa newidiadau sydd wedi bod. Er enghraifft, yn y tudalennau ar gyfer Grove Park mewn cyfeiriadur diweddarach ym 1934, nid oes cofnod ar gyfer y tŷ "Roseneath" felly, gallwn weld erbyn 1934 nad oedd y tŷ yno rhagor. Mae'r ysgol, a oedd drws nesaf, yno o hyd, ond erbyn 1934 roedd ysbyty wedi'i adeiladu lle'r oedd "Roseneath" ar un adeg. Gallwn weld hefyd bod y cyfrifwyr yn Rhif 7 Henblas Street yng nghyfeiriadur masnachol 1892 wedi dod yn ddepo beiciau ym 1934 a bod y popty a'r ystafelloedd bwyta yn rhif 13 wedi troi'n siop ddilledydd, sef rhywun a oedd yn gwerthu defnydd a dillad. Roedd mwy o siopau'n gwerthu bwyd yn Henblas Street ym 1934 nag a oedd yn Henblas Street ym 1892.

Erbyn heddiw, nid oes cwmnïau'n gwneud nwyddau lledr ac offer ffermio yng nghanol tref Wrecsam, ond mae popty lleol yno o hyd sy'n gwerthu bara, cacennau a brechdanau. Mae cwmnïau yswiriant yno o hyd hefyd a siopau bwyd a stondinau marchnad. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd anifeiliaid fferm yn cael eu cludo i dref Wrecsam i'w gwerthu yn y farchnad. Erbyn heddiw, mae'r ardal lle roedden nhw'n cael eu gwerthu wedi'i throi'n ganolfan siopa.

# Rhagor o Wybodaeth – Archifdai Lleol

## Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy lleol isod:

Archifau Gwent enquiries@gwentarchives.gov.uk Ffôn: 01495 353363

Archifau Morgannwg glamro@caerdydd.gov.uk Ffôn: 029 2087 2200

Archifau Prifysgol Abertawe archives@swansea.ac.uk Ffôn: 01792 295021

Archifau Prifysgol Aberystwyth archives@aber.ac.uk Ffôn: 01970 628593

Archifau Prifysgol Bangor archives@bangor.ac.uk Ffôn: 01248 382966

Archifau Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant rodericbownlibrary@tsd.ac.uk Ffôn: 01248 38296

Archifau Ynys Môn archifdy@ynysmon.gov.uk Ffôn: 01248 751930

Archifdy Ceredigion archives@ceredigion.gov.uk Ffôn: 01970 633697/633698

Archifdy Cymdeithas Hynafiaethau Castell-nedd westglam.archives@abertawe.gov.uk Ffôn: 01639 620139

Archifdy Gwynedd, Meirionnydd archifau.dolgellau@gwynedd.gov.uk Ffôn: 01341 424 682

Archifdy Gwynedd, Caernarfon archifau.caernarfon@gwynedd.gov.uk Ffôn: 01286 679095

Archifdy Sir Ddinbych archif@sirddinbych.gov.uk Ffôn: 01824 708250

Archifdy Sir Benfro record.office@pembrokeshire.gov.uk Ffôn: 01437 775456

Archifdy Sir y Fflint archives@siryfflint.gov.uk Ffôn: 01244 532364

Gwasanaeth Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam archives@wrecsam.gov.uk Ffôn 01978 297480

Gwasanaeth Archifau Conwy archifau.archives@conwy.gov.uk Ffôn 01492 577550

Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, Abertawe westglam.archives@abertawe.gov.uk Ffôn 01792 636589

Gwasanaeth Archifau Sir Gaerfyrddin archives@sirgar.gov.uk Ffôn: 01267 228232

Prifysgol Caerdydd, Casgliadau Arbennig ac Archifau keelanp@caerdydd.ac.uk Ffôn: 029 2087 5678

Swyddfa Archifau Sir Powys archives@powys.gov.uk Ffôn: 01597 826088

**Gallwch ddod o hyd i ragor o adnoddau ar-lein, yn eich archifdy, eich swyddfa cofnodion a'ch amgueddfa leol.**

**Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy neu'ch swyddfa cofnodion leol yn www.archiveswales.org.uk/**

**Gallwch ddod o hyd i'ch amgueddfa leol yn www.culture24.org.uk/places+to+go/wales (Saesneg yn unig)**

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru: www.llgc.org.uk/cy/**

**Casgliad y Werin Cymru: www.casgliadywerincymru.co.uk**

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru: www.cbhc.gov.uk**

**Coflein: www.coflein.gov.uk**